

Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed Ysgubor y Coed Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2017

2017/12. Presennol: Cyngorwyr Toland (yn y gadair), Jenkins, Goodman, Swanson a B. Thomas; Cyngorydd Sir ap Gwynn. Bu'r clerc yn gweinyddu.

13. Ymddiheuriadau: Cyngorwyr Griffiths a Mason.

14. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol: Derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfodydd ar 10 Mai 2017 a 26 Mehefin 2017.

15. Datganiadau o ddiddordeb:

Cyngorydd Thomas: palmant. Cyngorydd Goodman: Bodlondeb.

16. Materion yn codi:

- i. Nodwyd llythyr gan R. Morgan at Gyngorydd Swanson. Adroddwyd bod y cyngorwyr wedi cwrdd â'r Swyddog Llwybrau Cyhoeddus. Yn anffodus, nid yw creu llwybr troed drwy'r caeau i gysylltu'r gwahanol rannau o'r gymuned yn ymarferol gan fod problemau gyda phreifatrwydd a hefyd byddai costau mawr ynghlwm â gwneud wal y cae rhwng Eglwys-fach a Ffwrnais yn ddiogel.
Pwynt gweithredu: Clerc i ysgrifennu eto am ysgrifennu i'r Llywodraeth am ddyddiadau ar gyfer y cynllun ar gyfer y palmant a gofyn pryd bydd ymgynghoriad ar y mater. Ni ddylid aros am ddamwain cyn gweithredu. Penderfynwyd gofyn am arwyddion 'Cerddwyr yn y ffordd' a 'Dim palmant'.
- ii. Adroddwyd bod Mr David Anning wedi cael cyfarfod â'r asiant tir am y lle chwarae ond doedd dim newyddion pellach. Mae ffens i fynd o gwmpas y lle chwarae wedi'i harchebu. Bydd diwrnod o waith ar y safle yn fuan.
- iii. Nodwyd bod cynrychiolydd o Network Rail yn fodlon cwrdd a chael cyfarfod safle.
Pwynt gweithredu: Cyngorydd Toland i wahodd y cynrychiolydd.
- iv. Adroddwyd bod y meinciau yn y maes parcio'n pydru ac mae llawer o fwd a dŵr yno, gan fod loriau yn troi yno. Mae angen rhoi rhagor o gerrig i lawr gan fod ymwelwyr yn cwyno. Mae llai o sbwriel yn cael ei adael yn anghyfreithlon yn y maes parcio ers i'r banc papur gael ei dynnu.
Pwynt gweithredu: Clerc i drefnu cyfarfod safle gyda Cadw.
- v. Penderfynwyd rhoi hysbyseb am glerc newydd yn Siop Cynfelyn a Garej Talybont.
- vi. Mae'r gwyn am gysgodfa bws Eglwys-fach wedi'i chyfeirio at y cyfreithwyr. Bydd Cyngorydd Swanson yn chwilio am luniau o'r safle.

17. Cyllid:

- i. Derbyniwyd yr adroddiad ariannol.
- ii. Penderfynwyd trafod a derbyn y rheoliadau ariannol yn y cyfarfod nesaf.

18. Gohebiaeth a Chyfathrebu:

- i. Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Un Llais Cymru:
 - a) Pwyllgor Ardal Ceredigion: nodwyd.
 - b) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: nodwyd.
 - c) Model Brotocol Datrysiaidau Lleol ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned: penderfynwyd gosod hyn ar wefan y Cyngor a hefyd i roi cyfeiriad y wefan ar yr hysbysfyrddau.
- ii. Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Gyngor Sir Ceredigion:

- a) Ymgynghoriad ar Gartref Gofal Preswyl Bodlondeb: bydd y cynghorwyr yn ystyried hyn.
- b) Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy: penderfynwyd cysylltu â'r Swyddog Llwybrau Cyhoeddus am wella arwyddion llwybr yr arfordir o gwmpas Melindŵr.
- iii. Nodwyd cwyn bod yr arwyddion ar y palmant rhwng y garej a'r gysgodfa bws yn Ffwrnais. Bydd Cynghorydd Thomas yn siarad â pherchennog y garej.
- iv. Nodwyd *The Clerk*
- v. Nodwyd *Clerks and Councils Direct*
- vi. Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:
 - a) Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol: bydd y cynghorwyr yn ymateb i hyn.
 - b) Digwyddiad Arbennig yng Ngheredigion ar 13/07/17: nodwyd.
- vii. Nodwyd gohebiaeth gan Seafarers UK.
- viii. Nodwyd llythyr o ddiolch gan Advice Canolbarth Cymru.

19. Unrhyw Fater Arall: Adroddwyd y byddai datganiad ar 18/07/17 ar ranbartholi gan y gweinidog Mark Drakeford: mae adolygiad o gynghorau tref a chymuned ar y gweill.

20. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 13 Medi 2017.